**Mae cynlluniau manwl i'w gweld yn y gweddill**

**Dogfennau Ymgynghori Cyhoeddus.**

# Lleoliad: Prendergast

## Data llif traffig: beth mae'r data yn ei ddweud?

Cynhaliwyd dadansoddiad data yn 2018 i gefnogi'r cais cynllunio ysgol uwchradd. Wedi'i wneud yn Nheras Stepney, mae'r llif traffig yn dangos cerbydau yn teithio ddwy ffordd, tua'r gogledd ac i'r de, a'r cyflymder 85 canradd.

· Yn y bore, ceir tua 100 o gerbydau yn teithio'r ddwy ffordd. Yn y prynhawn, ceir tua 200 o gerbydau yn teithio'r ddwy ffordd.


· Mae'r symudiad yn gyfnewidiol: tua'r gogledd yn y bore rhwng 6am ac 8am, ac i'r de yn yr hwyr rhwng 4pm a 6pm.


· Mae'r symudiad tua'r gogledd ar ei uchaf am 12pm, gyda rhyw 70 o gerbydau


· Mae'r symudiad tua'r de ar ei uchaf am 5pm, gyda rhyw 140 o gerbydau

· Mae symudiad tua'r de yn sylweddol uwch ar gyfer y rhan fwyaf o'r dydd, sy'n awgrymu bod cerbydau'n defnyddio Teras Stepney yn lle'r ffordd liniaru.

· Mae'r terfyn cyflymder 85 canradd yn adlewyrchu'r parth 30mya blaenorol.







## A fydd CSP yn casglu mwy o ddata traffig?

Bydd rhagor o ddata traffig yn cael eu casglu yn y misoedd i ddod ar hyd Lôn Gefn, Rhiw Prendergast a Theras Stepney er mwyn gallu asesu'r cynllun.

Byddwn hefyd yn gallu cymharu'r teithiau a wnaed cyn pandemig COVID –19 â'r llif traffig yn dilyn y pandemig, ac yn asesu effaith traffig yr ysgolion.

## Data gwrthdrawiadau: beth mae'r data yn ei ddweud?

- Mae asesiad o'r gwrthdrawiadau traffig yn y pum mlynedd diwethaf (ers 2019) yn dangos y bu nifer o wrthdrawiadau, yn bennaf ar hyd ffordd yr A40 o amgylch Prendergast.
- · Mae dau wedi bod yn ddifrifol. Bu damwain yn 2021 ar gylchfan Pen-y-bont, ac un yn 2022 ar hyd Heol Abergwaun.
- · Ar ffordd y B4329, bu un ddamwain fach, a gofnodwyd yn 2019.
- · Cofnodwyd pedair damwain fach yng nghylchfan Pen-y-bont, gydag un yn digwydd yn 2019 a thair yn digwydd yn 2021. O'r rhain, nid oedd yr un ohonynt yn gysylltiedig â chynllun y gerbytffordd, ond yn hytrach ymddygiad gyrwyr.

**PCC Transport Strategy Team**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government